# Asesiad Effaith Rheoleiddiol Rhannol

## 1. Pwyllgorau Cynllunio

### Opsiynau

1.1 Ystyriwyd dau opsiwn:
- Opsiwn 1: Gwneud dim h.y. caniatáu i'r ACLlau bennu maint eu pwyllgor cynllunio.
- Opsiwn 2: cyfyngu nifer yr aelodau a gaiff wasanaethu ar bwyllgor cynllunio ACLl.

### Opsiwn 1: Gwneud dim

### Disgrifiad

1.2 Byddai Opsiwn 1 yn parhau'r arfer presennol, sef bod pob awdurdod cynllunio unigol yn pennu maint ei bwyllgor cynllunio.

### Costau

Llywodraeth Cymru

1.3 Gan na fyddai angen gwneud is-ddeddfwriaeth na pharatoi unrhyw ganllawiau, ni fyddai'n achosi unrhyw ganlyniadau ariannol i Lywodraeth Cymru .

Awdurdodau Cynllunio Lleol

1.4 Mae pwyllgorau cynllunio yn amrywio'n fawr o ran eu maint, o 11 aelod yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Dinas Casnewydd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot sy'n gweithredu'r pwyllgor cynllunio sengl mwyaf, gyda 45 o aelodau

1.5 Mae pob un o'r 72 aelod o Gyngor Dinas Abertawe yn aelod o'r pwyllgor cynllunio. Abertawe yw'r unig ACLl yn Nghymru sy'n gweithredu pwyllgorau cynllunio ardal (gyda 35 a 37 o aelodau) yn ychwanegol at bwyllgor cynllunio strategol (72 o aelodau).

1.6 Er nad oes data ar gael yn gyhoeddus ynglŷn â chost gweithredu pwyllgor cynllunio, mae'r costau yn y tabl isod wedi eu hamcangyfrif ar sail y nifer o aelodau sydd ar y pwyllgor, isafswm presenoldeb staff yr ACLl a'u cost (am bob cyfarfod):

**Tabl 1: Costau pwyllgor cynllunio cyfredol**

| Awdurdod Cynllunio Lleol | Nifer yr aelodau | Amcangyfrif o gost y staff a'r aelodau (gan gynnwys costau rheolaidd) |
|---|---|---|
| CBS Merthyr Tudful a Chyngor Dinas Casnewydd | 11 | £840 |
| CBS Castell-nedd Port Talbot | 45 | £ 2,007 |

| | | |
|---|---|---|
| Dinas Abertawe<br>- Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu Strategol<br>- Ardal 1<br>- Ardal 2 | 72<br>35<br>37 | £2,807<br>£1,614<br>£1,678<br>£6,099* |

**Amcangyfrif o gyfanswm cost y staff i'r ACLl pan fo pob un o'r 3 phwyllgor cynllunio yn cyfarfod yn ystod mis calendr*

1.7 Mae'r ffigurau darluniadol hyn yn dangos yr amrywiad yng nghost pwyllgorau'r ACLlau presennol. Bydd yr ACLlau hynny sy'n gweithredu pwyllgorau sy'n cynnwys pob aelod etholedig, neu nifer fawr ohonynt, yn parhau i dynnu costau sylweddol am bob cyfarfod a gynhelir. Nid yw'r ffigurau hyn yn cymryd i ystyriaeth y gost o ddarparu hyfforddiant i aelodau o'r pwyllgorau cynllunio.

Y Diwydiant Datblygu

1.8 Gall pwyllgorau mawr fod yn araf ac anghyson wrth wneud penderfyniadau, a chyfrannu at oedi yn y broses gynllunio. Er y byddai'n anodd amcangyfrif y gost yn gywir, mae'n amlwg bod gohirio penderfyniadau cynllunio yn gosod baich ariannol sylweddol ar ddatblygwyr ac ar economi Cymru. Amcangyfrifwyd bod y gost i economi'r DU, sy'n gysylltiedig ag oedi yn y system gynllunio rhwng £700 miliwn a £3biliwn y flwyddyn[1]

**Buddion**

Llywodraeth Cymru

1.9 Ni fyddai'r opsiwn hyn yn Achosi unrhyw fuddion i Lywodraeth Cymru o ran gwella perfformiad.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

1.10 Byddai'r aelodau sy'n ffurfio rhan o bwyllgor cynllunio sy'n cynnwys yr holl aelodau etholedig, neu ran o bwyllgor cynllunio mwy na'r maint a argymhellid, yn cadw eu dylanwad ar y broses o wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio.

1.11 Fodd bynnag, collid y cyfle i sicrhau cysondeb mewn pwyllgorau cynllunio ledled Cymru, er mwyn gwella'r broses o wneud penderfyniadau.

1.12 Yn ychwanegol, bydd rôl yr aelod lleol yn y broses gynllunio yn fwy cyfyngedig yn yr awdurdodau hynny sydd â phwyllgorau cynllunio mawr. Mae hyn oherwydd y protocolau sy'n llywodraethu'r aelodau sy'n gwasanaethu ar y pwyllgor, yn enwedig o ran rhag-benderfynu. Rhaid i aelodau beidio a rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle'u cyhuddir o ogwydd (bod â meddwl caeedig) wrth ymgymryd â'u rôl fel penderfynwyr. Yn ogystal, er bod gan aelodau gyfrifoldeb

[1] https://www.gov.uk/government/speeches/planning-reforms-boost-local-power-and-growth ac Adolygiad Killian Pretty, Adroddiad Terfynol, Tachwedd 2008 www.planningportal.gov.uk/uploads/kpr/kpr_final-report.pdf

i'w hetholwyr, fel aelodau o'r pwyllgor cynllunio, mae eu prif ddyletswydd i'r Wlad gyfan.

Y Diwydiant Datblygu

1.13 Byddai oedi ac anghysondeb yn y broses o benderfynu yn parhau, ac o ganlyniad ni ddeuai'r opsiwn ag unrhyw fudd i'r sector hwn.

**Opsiwn 2: Cyfyngu nifer yr aelodau a gaiff wasanaethu ar bwyllgor cynllunio ACLl**

**Disgrifiad**

1.14 Gan ddefnyddio'r darpariaethau ym Mil Cynllunio (Cymru), byddai Opsiwn 2 yn rhagnodi maint a chyfansoddiad pwyllgorau cynllunio mewn is-ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau gwell cysondeb yn y modd y mae pwyllgorau cynllunio yn gweithredu, ac yn eu maint.

1.15 Y bwriad yw cyflawni argymhelliad 5 o'r Adroddiad "*Study into the Operation of Planning Committees in Wales*"[2], sy'n datgan y "Dylid cyflwyno deddfwriaeth er mwyn diffinio maint y pwyllgor cynllunio:

- i isafswm o 11 o aelodau ac uchafswm o 21 aelod (ond heb fod yn fwy na 50% o aelodau'r awdurdod, ac eithrio Awdurdodau Parc Cenedlaethol);
- er mwyn osgoi cael holl aelodau'r ward (pan fo gan ward fwy nag un aelod etholedig) yn gwasanaethu ar y pwyllgor, er mwyn caniatáu i rai aelodau gyflawni'r rôl gynrychiadol dros fuddion y gymuned leol;
- cyflwyno cworwm ar gyfer dod i benderfyniadau a ddylai fod yn isafswm o 50% o'r pwyllgor (wedi'i dalgrynnu i fyny pan fo hynny'n odrif); ac
- ni ddylid caniatáu i aelodau sy'n ddirprwyon gael eu defnyddio.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

1.16 Bydd canllawiau gweithdrefnol ar gyflawni'r holl gynigion Rheoli Datblygu sy'n deilio o Fil Cynllunio (Cymru) yn cael eu datblygu ar gyfer ACLlau.

1.17 Bydd y canllawiau dwyieithog yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a'u lledaenu gan ddefnyddio'r sianelau presennol ynghyd â nifer fach o ddigwyddiadau. Amcangyfrifir mai'r cost untro am ddatblygu a lledaenu'r canllawiau fydd £47681

Awdurdodau Cynllunio Lleol

1.18 Amcangyfrifir y byddai costau staff ac aelodau ACLl ar gyfer pwyllgor cynllunio, ar sail y niferoedd lleiaf a mwyaf o aelodau, rhwng £840 (pwyllgor o 11 aelod)) a £1,162 (pwyllgor o 21 aelod) yn eu trefn, am bob cyfarfod.

[2] RTPI Cymru. *Study into the Operation of Planning Committees in Wales*. Adroddiad Terfynol. Fortsimere Associatesar y cyd ag Arup. Gorffennaf 2013

1.19 Mae Tabl 2 yn darlunio’r arbedion posibl (mewn perthynas â chostau aelodau am bob cyfarfod o 2 awr) y gellid eu sicrhau gan yr ACLlau y cyfeirir atynt yn Nhabl 1 drwy wneud y newidiadau a gynigir ym maint eu pwyllgor cynllunio:

**Tab 2: Costau pwyllgor cynllunio a gynigir**

| ACLl | Nifer presennol o aelodau | Nifer lleiaf arfaethedig o aelodau | Nifer mwyaf arfaethedig o aelodau | Amcangyfrif presennol o gost staff | Nifer lleiaf arfaethedig o aelodau – arbediad | Nifer mwyaf arfaethedig o aelodau – arbediad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CBS Merthyr Tudful a Chyngor Dinas Casnewydd | 11 | 11 | 21 | £840 | +-£0.00 | -£322 |
| CBS Castell-nedd Port Talbot | 45 | 11 | 21 | £2,007 | +£1,167 | +£845 |
| Dinas Abertawe – Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu Strategol | 72 | 11 | 21 | £2,807 | +£1,967 | +£1,645 |
| – Ardal 1 | 35 | 11 | 21 | £1,614 | +£774 | +£452 |
| - Ardal 2 | 37 | 11 | 21 | £1,678 | +£838 | +£516 |
| | | | | £6,099* | +£3,579 † | +£2,613 † |

** Amcangyfrif o gyfanswm cost y staff i’r ACLl pan fo pob un o’r 3 phwyllgor cynllunio yn cyfarfod yn ystod mis calendr*

*† Amcangyfrif o gyfanswm yr arbediad costau staff i’r ACLl pan fo pob un o’r 3 phwyllgor cynllunio yn cyfarfod yn ystod mis calendr*

1.20 Gwnaed darpariaeth ym Mil Cynllunio (Cymru) i alluogi awdurdodau lleol (pe baent yn dewis) i ddirprwyo pwerau penderfynu i is-bwyllgorau. Fodd bynnag, bydd rhaid i faint a chyfansoddiad y pwyllgorau/is-bwyllgorau hynny gydymffurfio â'r gofynion sydd i’w rhagnodi yn y rheoliadau.

1.21 Er cydnabod y gallai cost y pwyllgor cynllunio gynyddu ychydig yn yr ACLlau hynny sy’n gweithredu ar hyn o bryd o fewn y paramedrau arfaethedig, ond yn dewis cynyddu maint eu pwyllgor i’r nifer uchaf a ganiateir o dan y rheoliadau (nifer mwyaf o 21 aelod), ni fyddai hynny’n achosi unrhyw gost ariannol ychwanegol i’r ACLl.

1.22 Mae’r costau a ddangosir yn Nhabl yn seiliedig ar gost amser aelodau a staff yr ACLl, a gyfrifir ar sail eu cyfraddau cyflog yr awr. Mae’r cyflogau a delir i aelodau a staff ACLl yn gost sefydlog i’r ACLl, ac ni fyddai’r newidiadau arfaethedig yn effeithio arni.

1.23 Er bod y tabl yn darlunio arbedion posibl, ni fyddai gweithredu’r newidiadau arfaethedig ym maint a chyfansoddiad y pwyllgorau cynllunio yn arwain at arbediad ariannol diriaethol i’r ACLlau. Yr hyn a gyflawnid fyddai arbediad o ran amser aelodau a swyddogion /staff ac adnoddau, y gellid eu defnyddio mewn

meysydd eraill a fyddai o fudd i'r Cyngor, a chyfranogiad aelodau mewn gweithgareddau cymunedol, yn rhinwedd eu rôl fel cynrychiolwyr lleol.

1.24 Byddai gofyn bob ACLl ddiwygio'r adrannau perthnasol o'u cyfansoddiad er mwyn cymryd i ystyriaeth y newidiadau arfaethedig mewn strwythurau cynllunio. Disgwylid y byddai gwneud hynny, fel arfer, yn eitem agenda mewn cyfarfod rheolaidd o'r Cyngor; ac felly ni fyddai'n achosi unrhyw gost ychwanegol.

<u>Y Diwydiant Datblygu</u>

1.25 Ni fyddai cyflawni'r newidiadau arfaethedig yn achosi unrhyw gost ariannol uniongyrchol i'r sector hwn.

**Buddion**

<u>Llywodraeth Cymru</u>

1.26 Mae pwyllgorau cynllunio llai yn debygol o ddarparu gwasanaeth cynllunio sy'n fwy tryloyw, cyson a theg. Byddant yn hyrwyddo diwylliant o wneud penderfyniadau mwy goleuedig ar sail tystiolaeth, gan grŵp o gynghorwyr a fydd yn meddu'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol. Bydd hynny'n gwella cysondeb ledled Cymru.

<u>Awdurdodau Cynllunio Lleol</u>

1.27 Mae meintiau'r pwyllgorau cynllunio ac adnoddau'r ACLlau yn amrywio. Fodd bynnag, bydd rhagnodi'r nifer o aelodau y caniateir iddynt fod yn rhan o'r pwyllgor yn lleihau'r gost a'r gorbenion gweinyddol, yn enwedig mewn ACLlau sydd â phwyllgorau cynllunio mwy na'r gofynion maint a chyfansoddiad. Bydd lleihau maint y pwyllgorau cynllunio yn rhyddhau'r aelodau hynny na fyddant mwyach yn rhan o'r pwyllgor. Mae pwyllgorau mawr yn defnyddio'r adnodd o gynghorwyr mewn ffordd aneffeithlon, drwy orfodi eu presenoldeb mewn pwyllgorau a thasgau cysylltiedig, megis ymweld â safleoedd neu ddarllen adroddiadau.

1.28 Roedd yr ymchwil gan RTPI yn cydnabod bod tyndra rhwng rôl yr aelodau sy'n cynnal buddiannau'r cyhoedd ehangach a rôl yr aelod lleol sy'n cynrychioli safbwyntiau'r gymuned[3]. Bydd lleihau meintiau'r pwyllgorau yn rhyddhau aelodau nad ydynt bellach yn rhan o'r pwyllgor cynllunio i gyflawni'r swyddogaeth gynrychiadol dros fuddiannau'u cymunedau lleol, a thrwy hynny hyrwyddo'r broses ddemocrataidd. Mae cynghorwyr sy'n gweithredu fel cynrychiolwyr cymunedau yn rhan hanfodol o'r broses gynllunio.

[3] RTPI Cymru. *Study into the Operation of Planning Committees in Wales*. Fortismere Associates ar y cyd ag Arup. 2013. Tud. 42

1.29 Bydd y penderfyniadau a gyrhaeddir yn fwy democrataidd yn ogystal, o ganlyniad i lacio'r tyndra gwleidyddol a grëir wrth ddadlau a phleidleisio ar linellau plaid, fel sy'n digwydd weithiau mewn pwyllgorau mawr. Roedd ymchwil RTPI yn canfod teimlad bod pwyllgor mawr yn anhylaw, ac nad oedd yn rhoi cyfle i bob aelod o'r pwyllgor gyfrannu i'r drafodaeth[4].

1.30 Trwy roi gwell ffocws i'r hyfforddiant a roddir i'r aelodau, gellid meithrin pwyllgorau mwy hyfforddedig ac effeithiol, a fydd â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o faterion cynllunio i wneud penderfyniadau mwy goleuedig er budd y cyhoedd.

<u>Y Diwydiant Datblygu</u>

1.31 Bydd creu pwyllgorau llai, a fydd wedi eu hyfforddi'n dda ac y meddu'r wybodaeth a'r gallu i drafod ac asesu cynigion datblygu cymhleth a chyrraedd penderfyniadau goleuedig yn brydlon, o gymorth sylweddol wrth geisio osgoi rhywfaint o'r oedi yn y system bresennol, sy'n cyfrannu at y costau a amlinellir ym mharagraff 1.8.

<u>Y Gymuned</u>

1.32 Bydd y cyhoedd ar ei ennill hefyd, oherwydd diffinio rolau a chyfrifoldebau aelodau yn fwy eglur, fel naill ai cynrychioli buddiannau lleol neu fudd ehangach y cyhoedd.

1.33 Trwy fabwysiadu cworwm, gellir sicrhau bod grŵp mwy cyson o aelodau yn bresennol mewn cyfarfodydd, a bydd hynny'n arwain at well cysondeb wrth wneud penderfyniadau. Mewn pwyllgorau mawr, yn enwedig pan fo pob aelod o'r Cyngor yn aelod o'r pwyllgor, gall y cynulliad sy'n bresennol amrywio'n sylweddol o gyfarfod i gyfarfod, ac arwain at anghysondeb yn y modd y gwneir penderfyniadau.

**Crynodeb a'r Opsiwn a Ffefrir**

1.34 Nid yw Opsiwn 1 yn newid y trefniadau presennol, ac felly byddai anghysondeb a'r posibilrwydd o oedi cyn gwneud penderfyniadau yn parhau. Trwy gadw'r pwyllgorau cynllunio mawr, byddid yn parhau i ddefnyddio'r adnoddau prin o aelodau yn ddiangen, drwy fynnu eu bod yn cael hyfforddiant, yn mynychu pwyllgorau a threulio amser yn ystyried yr agendâu. Oherwydd y protocolau sy'n llywodraethu Pwyllgorau Cynllunio, gall hyn hefyd rwystro aelodau rhag ymgymryd â'u rôl bwysig a gwerthfawr o ymdrin yn rhagweithiol â'r ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar eu hetholwyr.

1.35 Byddai presenoldeb anwastad aelodau yn y pwyllgorau mwyaf yn parhau i effeithio ar gysondeb y penderfyniadau. Yn ychwanegol, gallai arwain at bleidleisio a fyddai'n llai 'democrataidd' oherwydd pwyslais gormodol ar farn yr aelod lleol, a'r croestynnu gwleidyddol a allai godi yn ystod y dadlau/pleidleisio, yn hytrach nag ar asesu rhinweddau'r cais.

---
[4] Ibid. t. 55.

1.36 Mae Opsiwn 2, sef yr opsiwn a ffefrir, yn rhagnodi maint a chyfansoddiad y pwyllgorau cynllunio er mwyn sicrhau gwell cysondeb ledled Cymru. O ganlyniad i hyn, byddai pwyllgorau llai yn gweithredu ledled Cymru, gan greu cohort effeithiol o aelodau hyfforddedig, a fyddai'n cyflawni swyddogaeth wedi ei diffinio'n eglur, sef cynrychioli buddiannau'r cyhoedd ehangach.

1.37 Byddai pwyllgorau bach, hyfforddedig o fudd hefyd i'r diwydiant datblygu, drwy roi ar gael y sgiliau, yr wybodaeth a'r dilyniant aelodaeth i wneud penderfyniadau goleuedig, cyson a phrydlon, a thrwy hynny osgoi llawer o'r oedi yn y broses ddatblygu.

1.38 Yn ychwanegol, ceir cyfle i wella rôl yr aelodau fel cynrychiolwyr lleol. Bydd modd i'r aelodau hynny nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor cynllunio chwarae rhan fwy rhagweithiol yn y ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar eu hetholwyr, gan gynnwys cefnogi ymgyrchoedd. Mewn rôl o'r fath, byddant yn rhydd i fynegi cefnogaeth i farn benodol cyn i'r mater dan sylw ddod gerbron y pwyllgor cynllunio, ac ymgyrchu dros y farn honno heb ofni eu cyhuddo o rag-benderfynu.

## 2 Y Cynllun Dirprwyo Cenedlaethol

### Opsiynau

2.1 Ystyriwyd dau opsiwn

- Opsiwn 1 – Gwneud dim, h.y. cadw disgresiwn lleol ynglŷn â dirprwyo
- Opsiwn 2 – Cyflwyno cynllun dirprwyo cenedlaethol gorfodol

### <u>Opsiwn 1: Gwneud dim</u>

### Disgrifiad

2.2 Byddai Opsiwn 1 yn parhau'r arfer presennol o ganiatáu i bob awdurdod baratoi ei gynllun dirprwyo ei hunan .

### Costau

<u>Llywodraeth Cymru</u>

2.3 Gan na fyddai angen unrhyw newidiadau deddfwriaethol na pharatoi unrhyw ganllawiau, ni fyddai'n achosi unrhyw draul ariannol i Lywodraeth Cymru

<u>Awdurdodau Cynllunio Lleol</u>

2.4 Byddai'r opsiwn hyn yn caniatáu i'r ACLlau barhau gyda'u trefniadau dirprwyo presennol ac felly ni osodid unrhyw gostau ychwanegol arnynt.

2.5 Ynglŷn â chostau cyfredol, mewn ymarferiad meincnodi rhwng Cynghorau yn Lloegr yn 2012, canfuwyd mai'r gost gyfartalog i ACLl am fynd â chais i

Bwyllgor Cynllunio oedd £1,188 ac mai'r costau cyfartalog am benderfyniadau a wnaed gan swyddogion o dan bwerau dirprwyedig oedd £530 (ymarferiad meincnodi gwasanaethau cynllunio PAS/CIPFA, 2012). Mae'r costau hyn yn cynnwys yr amser a dreuliwyd ar y gweithgaredd, cost yr awr y person sy'n cyflawni'r gweithgaredd, a dyraniad o'r gorbenion i'r gweithgaredd.

2.6 Er nad oes costau ar gael sy'n ymwneud yn benodol â Chymru, mae'n rhesymol credu bod y ffigurau hyn yn gymaradwy â'r costau a dynnir yn y system Gymreig, gan mor debyg yw'r prosesau a'r gweithdrefnau yn y ddwy wlad.

2.7 Yn y tabl isod rhoddir dadansoddiad o'r costau a ddarparwyd gan yr ymchwil. Cynyddwyd ffigurau 2012 yn unol â'r ffactor datchwyddo CDG o 1.06% i amcangyfrif y costau cyfartalog ar gyfer 2014.

**Tabl 3: Costau cyfartalog penderfynu cais cynllunio**

| | **2012** | **2014** |
|---|---|---|
| Penderfyniad dirprwyedig cyfartalog | | |
| Cael a dilysu, ffioedd | £81 | £82 |
| Ymgynghori a gwerthuso | £314 | £317 |
| Adroddiadau dirprwyedig a phenderfyniad | £135 | £136 |
| CYFANSWM | £530 | £536 |
| | | |
| Penderfyniad pwyllgor cyfartalog | | |
| Cael a dilysu, ffioedd | £81 | £82 |
| Ymgynghori a gwerthuso | £314 | £317 |
| Adroddiadau dirprwyedig a phenderfyniad | £793 | £801 |
| CYFANSWM | £1,188 | £1,201 |
| | | |

Rhannwyd y gost rhwng Penderfyniad Dirprwyedig a Phenderfyniad Pwyllgor (ni chysylltwyd y costau â'r math o ddatblygiad ).

2.8 Mae'r ymchwil yn awgrymu ei bod yn costio dwywaith gymaint ar gyfartaledd i brosesu cais a gyflwynir i bwyllgor cynllunio, o gymharu â chais a benderfynir o dan bwerau dirprwyedig.

<u>Y Diwydiant Datblygu</u>

2.9 Byddai rhai cynigion datblygu ar raddfa fach sy'n ymwneud â phrosiectau preswyl a masnachol bach, ac estyniadau, yn parhau i gael eu penderfynu gan bwyllgor cynllunio yn yr ACLlau hynny sydd â chynlluniau dirprwyo caeth, gan arwain at oedi ac ansicrwydd a achosir gan y broses pwyllgor.

2.10 Er ei bod yn anodd amcangyfrif yr union gost, mae oedi cyn gwneud penderfyniadau cynllunio yn gosod baich ariannol sylweddol ar ddatblygwyr ac ar economi Cymru. Mae'r costau i economi'r DU sy'n gysylltiedig ag oedi yn y system gynllunio yn destun dadlau. Er enghraifft, mae'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn haeru bod oedi ynglŷn â chynllunio yn

costio £3 biliwn y flwyddyn i economi'r DU[5], tra bo'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI)[6] yn amcangyfrif bod y gost flynyddol yn £700 miliwn o leiaf.

**Buddion**

Llywodraeth Cymru

2.11 Ni fyddai'r opsiwn hyn yn Achosi unrhyw fuddion i Lywodraeth Cymru o ran gwella perfformiad.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

2.12 Byddai i ba raddau y dirprwyir i swyddogion yn parhau'n fater i ddisgresiwn yr awdurdod lleol.

2.13 Caniateid i'r cynlluniau dirprwyo barhau i adlewyrchu'r amgylchiadau lleol, a chael eu diwygio pan dybid bod angen gwneud hynny. Byddai cyfle wedi ei golli i sicrhau gwell cysondeb ledled Cymru mewn perthynas â'r broses o wneud penderfyniadau.

Y Diwydiant Datblygu

2.14 Byddai oedi ac anghysondeb yn y broses o wneud penderfyniadau yn parhau, gyda chynigion datblygu ar raddfa fach, y gellid eu hystyried yn fwy effeithlon o dan drefniadau dirprwyedig, yn parhau i gael eu penderfynu gan bwyllgor mewn rhai achosion. O ganlyniad, ni achosid unrhyw fuddion i'r sector hwn.

**Opsiwn 2: Cyflwyno cynllun dirprwyo cenedlaethol gorfodol**

**Disgrifiad**

2.15 Byddai is-ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud, i gyflwyno cynllun dirprwyo cenedlaethol gorfodol, a fyddai'n darparu gwell cysondeb ac effeithlonrwydd yn genedlaethol yn y broses o wneud penderfyniadau. Byddai'r cynllun dirprwyo a ragnodid yn sicrhau bod yr un math o gais cynllunio yn cael ei drin yn yr un modd (h.y. gan bwyllgor neu drwy ddirprwyo) ledled Cymru.

2.16 Byddai'r cynllun dirprwyo cenedlaethol yn cipio'r holl geisiadau am ganiatâd cynllunio llawn ac amlinellol yn ogystal â cheisiadau am gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl o dan Ran 3 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, h.y. crynswth y ceisiadau sydd ar hyn o bryd yn ffurfio baich gwaith pwyllgor cynllunio. Ni fyddai'r rheoliadau yn rhagnodi sut y bydd yr ACLl yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'i swyddogaethau eraill (megis cyflawni amodau cynllunio, gorfodi, gorchmynion cadw coed, etc.); mae'r rhain yn faterion a adewir i bob awdurdod unigol. Am y rheswm hwnnw, rhagwelir y byddai'r

[5] https://www.gov.uk/government/speeches/planning-reforms-boost-local-power-and-growth
[6] http://www.rtpi.org.uk/knowledge/core-issues/planning-myths/myth-number-3-planning-is-costly/

cynllun dirprwyo cenedlaethol yn ffurfio rhan o gyfansoddiad mabwysiedig ehangach yr awdurdod.

2.17 Ar sail yr ymchwil a wnaed, a chan gymryd i ystyriaeth rôl y pwyllgor cynllunio fel y'i diffinnir ym mharagraff 4.3 o'r ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r cynllun dirprwyo cenedlaethol gynnwys eithriadau fel a ganlyn:

- Cais sy'n gwyro oddi wrth, neu'n groes i'r cynllun datblygu (neu gais am gymeradwyo hynny)
- Ceisiadau sy'n cynnwys Asesiad effaith Amgylcheddol
- Pan fo buddiant yn y cais gan gyflogai'r ACLl neu aelod o'r Cyngor
- Galw i mewn gan yr aelodau
- Trothwy ar faint y datblygiad
- Trothwy ar nifer y gwrthwynebiadau

2.18 O ran strwythur cyffredinol y cynllun dirprwyo cenedlaethol, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried tri opsiwn, a ddangosir y atodiad 2 i'r ymgynghoriad. Mae'r opsiynau yn gwahaniaethu yn bennaf yn y graddau y gyfyngir ar alw i mewn gan yr aelodau.

**Costau**

<u>Llywodraeth Cymru</u>

2.19 Mae'r gost o baratoi a chyhoeddi canllawiau gweithdrefnol wedi ei hamlinellu ym mharagraffau 1.16 ac 1.17.

2.20 Byddai effeithiolrwydd y cynllun dirprwyo cenedlaethol o ran darparu gwell cysondeb ac effeithlonrwydd yn cael ei fonitro o fewn Fframwaith Perfformiad Cynllunio presennol Llywodraeth Cymru, ac felly ni achosid unrhyw gostau monitro ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

<u>Awdurdodau Cynllunio Lleol</u>

2.21 Ni ragwelir unrhyw gostau ychwanegol yn y broses o wneud penderfyniadau pe bai'r cynllun dirprwyo cenedlaethol yn cael ei strwythuro yn unol â'r opsiwn 2 neu'r opsiwn 3 a ddangosir yn atodiad 2 i'r ymgynghoriad. Ni ddisgwylir i nifer y ceisiadau newid o ganlyniad i'r cynnig. Byddai swyddogion cynllunio yn parhau i asesu'r ceisiadau yn yr un modd ag y gwnânt ar hyn o bryd ac yn paratoi adroddiad ar bob cais; ac o dan y naill neu'r llall o'r opsiynau hyn byddai'r adroddiad yn cael ei ystyried o dan drefniadau dirprwyedig (gweler yr adran buddion). Byddai'r gost a dynnid drwy fynychu cyfarfodydd o'r pwyllgor cynllunio i drafod y ceisiadau hefyd yn cael ei diddymu. Gan y byddai gan y swyddogion brofiad eisoes o wneud penderfyniadau ar geisiadau, ni achosid unrhyw gostau hyfforddi ychwanegol.

2.22 Cydnabyddir y gallai sefydlu a gweithredu panel dirprwyo (sef yr opsiwn 1 a ddangos yn atodiad 2 i'r ymgynghoriad) achosi costau yn nhermau pwysau ychwanegol ar amser gwerthfawr yr aelodau (a swyddogion/ staff cymorth technegol) a gallai achosi oedi yn y broses o wneud penderfyniadau

2.23 Yn ychwanegol, bydd gofyn i bob ACLl ddiwygio'r adrannau perthnasol o'i gyfansoddiad er mwyn cymryd i ystyriaeth y newidiadau yn y cynllun dirprwyo. Disgwylir y byddai hynny'n eitem ar agenda cyfarfod rheolaidd o'r Cyngor, ac na fyddai'n achosi unrhyw gost ychwanegol.

Y Diwydiant Datblygu

2.24 Ni ragwelir y byddai gweithredu cynllun dirprwyo cenedlaethol a strwythurid yn unol ag opsiwn 2 neu 3 fel a ddangosir yn atodiad 2 i'r ymgynghoriad yn achosi unrhyw gost uniongyrchol i'r sector hwn. Ni fyddai cyflwyno cynllun dirprwyo cenedlaethol yn newid y broses ymgeisio bresennol a ddilynir gan ddatblygwyr a pherchnogion cartrefi wrth gyflwyno cais cynllunio.

2.25 Mae'n bosibl yr achosid rhywfaint o oedi yn y broses o wneud penderfyniadau (dros ben yr oedi a ddigwyddai o dan opsiwn 2 neu 3) pe cyflwynid paneli dirprwyo i ddilysu ceisiadau gan aelodau i alw cais i mewn (opsiwn 1 fel y'i dangosir yn atodiad 2 i'r ymgynghoriad). Er y byddid yn disgwyl i gyfarfodydd o'r panel dirprwyo gael eu trefnu ar adegau priodol yng nghalendr pwyllgorau'r ACLl, er mwyn sicrhau bod y ceisiadau a atgyfeirir i'w penderfynu gan y pwyllgor cynllunio yn mynd gerbron y cyfarfod nesaf sydd ar gael o'r pwyllgor hwnnw, hwyrach na fydd hynny'n bosibl ym mhob achos. Byddai'r oedi a achosid yn ychwanegu at yr amser rhagarweiniol cyn dechrau datblygu, a gallai ychwanegu at gostau'r sector.

**Buddion**

Llywodraeth Cymru

2.26 Byddai'r broses o wneud penderfyniadau, ar gyfer Cymru gyfan, yn cael ei symleiddio a'i hwyluso, a gellid cofnodi, monitro a dadansoddi perfformiad yr ACLlau. Byddai cyflwyno cynllun dirprwyo cenedlaethol yn cyfrannu at sefydlu gwasanaeth cynllunio sy'n fwy cyson, teg a thryloyw.

2.27 Byddai'r gwelliannau yng nghyflymder a chysondeb y system gynllunio yn debygol hefyd o wella hyder ym myd busnes a gallai hybu twf yr economi.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

2.28 O ganlyniad i weithredu'r cynllun dirprwyo cenedlaethol byddai pwyllgorau cynllunio yn penderfynu, yn unig, y ceisiadau strategol lleol, y ceisiadau mawr, a 'r ceisiadau sydd o ddiddordeb amlwg i'r cyhoedd neu o ran polisi. Byddai pob cynnig ar gyfer datblygu ar raddfa fach yn cael ei ddirprwyo i swyddogion , sydd â'r gallu i'w penderfynu yn fwy effeithlon.

2.29 Nodir hefyd y posibilrwydd o arbed costau, fel un o sgil effeithiau cynyddu nifer y penderfyniadau dirprwyedig. Mae'r ymchwil yn awgrymu bod prosesu cais drwy bwyllgor cynllunio yn costio mwy na dwywaith y gost o brosesu cais o dan bwerau dirprwyedig. Er nad yw'r ymchwil yn gwahaniaethu rhwng cost penderfynu cais mawr gan bwyllgor cynllunio a chost penderfynu cais bach (sef cais o'r math a dargedir gan y cynllun dirprwyo cenedlaethol), mae'n rhesymol rhagweld y byddai gweithredu'r cynllun dirprwyo cenedlaethol arfaethedig, a

thrwy hynny leihau nifer y ceisiadau a benderfynid gan bwyllgorau cynllunio, yn arbed costau i'r ACLlau

2.30 Dylai'r lleihad yn nifer y ceisiadau a benderfynir gan bwyllgor olygu y bydd cyfarfodydd y pwyllgor yn fyrrach. Ar hyn o bryd, mae hyd cyfartalog cyfarfodydd pwyllgor yn amrywio'n fawr, o 32 munud ym merthyr Tudful i 240 munud yn achos Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog[7], er mai llai na 3% o gyfanswm nifer y ceisiadau a gyflwynir i'r ACLlau sy'n geisiadau mawr.

2.31 Byddai lleihau hyd y cyfarfodydd pwyllgor yn gyfle hefyd i ryddhau adnoddau drwy alluogi'r aelodau a staff (sy'n cymryd rhan yng nghyfarfodydd pwyllgorau cynllunio) i ddefnyddio'r amser a arbedir ar fusnes arall y Cyngor.

2.32 Byddai rhagor o ddirprwyo yn cynyddu'r gyfran o benderfyniadau a wneir o fewn y cyfnod targed ar gyfer penderfynu, ac felly'n lleihau'r oedi yn y system bresennol. Yn nodweddiadol, cynhelir cyfarfodydd pwyllgor cynllunio unwaith bob mis, a pharatoir adroddiadau ar eu cyfer 3 wythnos ymlaen llaw. Hyd yn oed pan fo'r holl wybodaeth berthnasol i benderfynu cais mewn llaw, mae'n bosibl na ellid cyhoeddi penderfyniad cyn y cyfarfod nesaf a fyddai ar gael. Byddai cynyddu'r pwerau dirprwyo yn osgoi oedi o'r fath, drwy ganiatáu i swyddogion benderfynu pob cais sy'n dod o fewn y cynllun cenedlaethol ar unrhyw adeg, unwaith y bydd gan yr ACLl yr holl wybodaeth berthnasol i wneud penderfyniad.

2.33 Yn ychwanegol, byddai mabwysiadu cynllun cenedlaethol yn sicrhau bod gan bob un o'r ACLlau gynllun dirprwyo, ac yn cael gwared â'r baich o orfod diweddaru'r cynlluniau ym mhob ACLl unigol.

Y Diwydiant Datblygu

2.34 Bydd cynllun dirprwyo cenedlaethol yn creu gwell sicrwydd a chysondeb i geiswyr a datblygwyr, yn enwedig rhai sy'n gweithredu ar draws nifer o ardaloedd awdurdod cynllunio lleol.

2.35 Byddai cyflwyno cynllun dirprwyo cenedlaethol yn unol ag unrhyw un o'r opsiynau a ddangosir yn atodiad 2 i'r ymgynghoriad yn lleihau'r oedi a'r costau cysylltiedig, wrth i geisiadau o faint cymedrol a di-wrthwynebiad gael eu dal yn ôl yn ddiangen gan y broses pwyllgorau cynllunio. Bydd galluogi swyddogion i benderfynu ceisiadau o'r fath, heb aros am gyfarfod o'r pwyllgor cynllunio, yn arwain at benderfyniadau cyflymach a lleihau'r amser rhagarweiniol cyn dechrau datblygu.

**Crynodeb a'r Opsiwn a Ffefrir**

2.36 Ni fyddai Opsiwn 1 yn newid y trefniadau presennol. Byddai anghysondeb yn parhau a rôl y pwyllgor cynllunio yn aros fel y mae.

---

[7] RTPI Cymru. *Study into the Operation of Planning Committees in Wales*. Fortismere Associates ar y cyd ag Arup. 2013. Tabl 1: Planning Committee meetings by local planning authority 2012/13. Tudalen G2

2.37 byddai pwyllgorau cynllunio yn parhau i benderfynu cynigion datblygu graddfa-fach, y gellid eu penderfynu yn fwy effeithiol ac effeithlon gan swyddogion o dan bwerau dirprwyedig, gan achosi oedi diangen yn y broses o wneud penderfyniadau.

2.38 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir gan ei fod yn darparu lefel ofynnol o gysondeb ledled Cymru tra'n sicrhau bod pwyllgorau cynllunio yn ymdrin yn unig â cheisiadau strategol lleol, ceisiadau mawr a cheisiadau o ddiddordeb amlwg i'r cyhoedd neu o ran polisi, gan wneud y defnydd gorau o amser aelodau ac adnoddau.

2.39 Mae dirprwyo penderfyniadau i swyddogion yn fanteisiol i'r holl randdeiliaid, yn nhermau symleiddio'r gweithdrefnau, lleihau costau a rhyddhau amser yr aelodau i ganolbwyntio ar achosion mawr neu ddadleuol. Mae'n tynnu ymaith y ceisiadau nad ydynt, yn nodweddiadol, yn ennyn unrhyw drafodaeth na gwerthuso mewn pwyllgor; ac ar yr un pryd mae'n gwneud y system yn eglur ac yn diogelu cyfranogiad yr aelodau. Pan nad oes angen aros am benderfyniad gan bwyllgor, gellir arbed amser drwy ddelio â chais cynllunio yn ddi-oed. Mae dirprwyo, felly, yn broses gadarnhaol sy'n cynnig manteisio nid yn unig drwy symleiddio'r gweithdrefnau mewnol ond hefyd drwy wneud y system yn fwy ymatebol i geiswyr.